

BENNETT, RICHARD (1860 - 1937), hanesydd Methodistaidd

Enw: Richard Bennett
Dyddiad geni: 1860
Dyddiad marw: 1937
Rhiant: Jane Bennett (née Richards)
Rhiant: Edward Bennett
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: hanesydd Methodistaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Hendre, Cwm Pennant, Llanbryn-mair, 21 Medi 1860, yn fab i Edward Bennett, ffermwr, a'i wraig Jane (Richards), a oedd o'r un cyff a [Richard Lumley](#). Ni chafodd ond addysg gynradd, a bu fyw ar ei dyddyn genedigol hyd 1914, pan ymneilltuodd (yn herwydd trymder ei glyw) i Fangor, ac wedyn i Gaersws, lle y bu farw 13 Awst 1937, yn ddi-briod.

Er yn fore, yr oedd yn Bennett dueddfryd at chwilota hanesyddol, a chopiodd gofrestrau plwyfi ei ardal. Yn 1899 dechreuodd sgrifennu i'r *Traethodydd*. Yn 1905 aeth i Drefeca i ddarllen y llawysgrifau yno; ac o hynny allan bwriai bob gaeaf yn Nhrefeca, gan ddychwelyd at waith y fferm yn y gwanwyn. Efo a gopiodd lythyrau Trefeca at eu cyhoeddi yn Atodiadau *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calffinaidd*, a chyfrannodd nifer o erthyglau i'r un cyhoeddiad.. Cyhoeddodd y llyfrau a ganlyn: *Blynyddoedd Cyntaf Methodistiaeth* (Caernarfon, 1909), *Methodistiaeth Trefaldwyn Uchaf* (Bala, 1929), *Methodistiaeth Trefeglwys* (Llanidloes, 1933), *Methodistiaeth Cemaes* (Llanidloes, 1934), *Methodistiaeth Caersws* (Llanidloes, 1938). Wedi ei farw, cyhoeddwyd rhai o'i anerchiadau, gyda byr-gofiant, yn *Cyfrol Goffa Richard Bennett* (Bala, 1940).

Yr oedd Bennett yn chwilotwr ac yn hanesydd o radd anarferol uchel - yn rhyfeddol felly pan gofiwn na chafodd unrhyw hyfforddiant. Nid yn unig yr oedd ei wybodaeth o lawysgrifau Trefeca bron yn wyrthiol yn ei manylder, ond yr oedd ganddo hefyd welediad eang iawn ar ei faes. Ni bu neb mwy teilwng nag ef o'r radd o M.A. a gyflwynwyd iddo, er clod, gan Brifysgol Cymru yn 1932.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Cyfrol Goffa Richard Bennett, M.A., 1860-1937: hanesydd, llenor a sant (Bala 1940), a'r cyfeiriadau pellach ynddi
Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol, Gaeaf 1939

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [68773934](#)

Wikidata: [Q20734263](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.